Adran 1

Gwybodaeth gyffredinol

Gwybodaeth am y DU a Chymru

Gelwir y Deyrnas Unedig (DU) hefyd yn Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ac mae'n cynnwys Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwlad Ewropeaidd yw'r DU gyda phoblogaeth o thua 60 miliwn o bobl. Saesneg yw'r iaith gyffredin a siaredir ynddi. Yn wleidyddol mae gan y DU system ddemocrataidd gyda senedd wedi'i lleoli yn Llundain, y brifddinas.

Mae gan Gymru a'r Alban rywfaint o hunanlywodraeth wleidyddol, yng Nghymru mae hyn ar ffurf y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi ei leoli ym mhrifddinas Cymru, Caerdydd. Cymraeg yw iaith Cymru er bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu siarad Saesneg. Yng Nghymru mae'r lenyddiaeth swyddogol, arwyddion ffyrdd, datganiadau mewn gorsafoedd trenau/bysiau ayb yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r DU wedi ei rhannu yn ardaloedd daearyddol a elwir yn siroedd neu fwrdeistrefi. Mae'r siroedd/bwrdeistrefi hyn yn cael eu rhedeg gan awdurdodau llywodraeth leol a elwir yn Gynghorau. Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw un o'r bwrdeistrefi ac mae wedi ei lleoli yng Nghymru, sydd yn un o wledydd y Deyrnas Unedig (DU).

Gwybodaeth am Wrecsam

Mae gan dref Wrecsam boblogaeth o 43,000 a hi yw'r dref fwyaf yng Ngogledd Cymru a'r bedarwedd dref fwyaf yng Nghymru. Cyfanswm poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw 129,300.

Mae Wrecsam mewn lleoliad breintiedig iawn ac yn daith awr i ffwrdd mewn cerbyd o Fanceinion, 45 munud o Lerpwl ac 20 munud o Ddinas Caer. Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd rhagorol yn cysylltu'r Bwrdeistref Sirol â gweddill y DU.
Mae Wrecsam wedi'i lleoli yn y bryniau Cymreig ac mae ganddi nifer o safleoedd hanesyddol. Erbyn hyn y mae'n ganolfan ddiwydiannol fodern gyda Stad Ddiwydiannol a Pharc Technoleg gyda chwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol fel ei gilydd yn darparu gwasanaethau a chyflogaeth.